# Ysgol Aberconwy

# Polisi Derbyniadau & Dewisiadau

| | |
|---|---|
| **Dogfen Bolisi Rhif : 2** | **RHIFYN: 9** |

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU CYFAN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 1/12/22**

**Dyddiad adolygu : 1/12/23** **Cyswllt TA : IG**

## POLISI DERBYNIADAU A DEWISIADAU

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gellir gweld copïau o'r polisi yn yr ysgol neu yn http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/School-Admissions/School-Admissions.aspx.

Mae'r ysgol hefyd yn cyhoeddi copi o'r polisi ar ei gwefan ei hun: http://www.aberconwy.conwy.sch.uk/school/admissions.

Mae'r polisi yn datgan y canlynol mewn perthynas â meini prawf derbyniadau:

- y ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni pan nad yw'r nifer derbyn wedi'i gyrraedd;
- y ddyletswydd i sicrhau bod buddiannau Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a fu'n Derbyn Gofal yn cael eu hamddiffyn ac yn cael blaenoriaeth yn y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer pob ysgol;
- y ddyletswydd i sicrhau bod disgybl â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu derbyn i'r ysgol a enwir yn y datganiad;
- rhwymedigaeth i sicrhau bod disgyblion ag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol yn cael eu derbyn i ysgol benodol;
- y rhwymedigaeth i sicrhau y darperir addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau; ac unrhyw gyfyngiad a all godi mewn perthynas ag ysgol benodol o ganlyniad i weithredu'r nifer derbyn, sef nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Yn ein hachos ni, nifer derbyn yr ysgol yw **204**.
- unrhyw gyfyngiad a all godi mewn perthynas â gordanysgrifio. Pennir blaenoriaeth o fewn pob categori gan bellter cerdded diogel o'r ysgol. Mesurir pellter trwy gyfrwng meddalwedd GIS (Systemau Gwybodaeth Graffigol) Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy, a gydnabyddir yn genedlaethol, gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf o ddrws blaen cartref yr ymgeisydd i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

  Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn plentyn i ysgol ar gyfer addysg mewn dosbarth babanod yn unol â dewis y rhiant, lle byddai derbyn y plentyn yn niweidio addysg effeithlon neu'r defnydd effeithon o adnoddau oherwydd 'mesurau cymhwyso'. Mesurau cymhwyso yw'r mesurau y byddai angen eu hangen i sicrhau bod y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau yn cael ei fodloni (hynny yw, na ddylai unrhyw ddosbarth gynnwys mwy na 30 disgybl).

Mewn amgylchiadau lle mae nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer safonol, bydd yr Awdurdod yn ystyried y meini prawf canlynol yn y drefn a restrir :

**Categori A**
Ar gyfer mynediad i bob ysgol, disgyblion sy'n:

1. 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a 'Plant a fu'n Derbyn Gofal'.
2. Plant nad oes ganddynt ddatganiad ond sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn cyfiawnhau mynediad i ysgol benodol, ym marn yr Awdurdod Derbyn. Byddai

tystiolaeth o angen yn cynnwys gwybodaeth am ymyrraeth ar lefel Gweithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.

3. Plant sydd ag (neu y mae gan eu rhieni) anghenion meddygol eithriadol sydd ym marn yr Awdurdod Derbyn yn cyfiawnhau mynediad i ysgol benodol.

**Categori B**
Ar gyfer mynediad i ysgol uwchradd:

i) disgyblion a fynychodd yr ysgol gynradd neu iau partner ac sy'n byw yn y 'dalgylch'.
ii) disgyblion a fynychodd ysgol gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys y mae ei 'dalgylch' yn cynnwys rhan o 'ddalgylch' yr ysgol uwchradd ac sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol uwchradd.

**Categori C**
Disgyblion sy'n byw yn y 'dalgylch' ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer Categori B.

**Categori D**
Disgyblion sydd â brodyr a chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol neu sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner ond nad ydynt yn byw yn y 'dalgylch'.

**Categori E**
Y rhai hynny sy'n byw y tu allan i'r 'dalgylch' ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer unrhyw n o'r categorïau uchod.